**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 28 Medi 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| F M Gordon | B Hopkins | L R Jones |
| S Joy | Y V Jardine | S Pritchard |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Rhodri Jones | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

## 14 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 15 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

## 16 Arolygiad Estyn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ganlyniadau gwych arolygiad diweddar Estyn a gynhaliwyd yn Abertawe.

Canmolodd Aelod y Cabinet, y Cyfarwyddwr a'i holl staff am y gwaith caled a wnaed a'r canlyniadau gwych a gafwyd

**17 Y Diweddaraf ar yr Adran Addysg a Rhaglen Waith y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol 2022-23.**

Cyfeiriodd Sarah Hughes at yr adroddiad a ddosbarthwyd a oedd yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol gynhwysfawr i'r pwyllgor yn ymwneud â'r Adran fel y gofynnwyd amdani yn y cyfarfod blaenorol.

Siaradodd Helen Morgan-Rees a Rhodri Jones o blaid yr adroddiad a ddosbarthwyd gan ddweud, yn dilyn arolygiad rhagorol Estyn, fod yr wybodaeth yn yr adroddiad yn sail i symud ymlaen a gwneud cynnydd yn unol â mentrau a syniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Yn dilyn y trafodaethau yn y cyfarfod blaenorol amlinellwyd gwybodaeth ganddynt am feysydd posib ychwanegol i'w cynnwys yn y rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2022-2023, yn enwedig ynghylch y sefyllfa bresennol yn ymwneud â rhaglenni sydd â'r nod o gryfhau arweinyddiaeth ysgolion a datblygiad proffesiynol ar gyfer holl staff yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth gref a'r rhaglenni sydd eisoes ar waith, yn rhai y gellid adeiladu arnynt a'u gwella yn y dyfodol.

Amlinellwyd a thrafodwyd yr heriau sy'n wynebu llawer o ysgolion o ran cadw staff uwch ac annog staff i ymgeisio am y swyddi uchaf.

Hefyd yn gynwysedig yn yr adroddiad roedd gwybodaeth fanwl yn ymwneud â chyflwr ysgolion hŷn yn Abertawe, categorïau gwahanol o ysgolion (A-C), nifer yr ysgolion ym mhob categori, materion amgylcheddol a strategaeth lleihau carbon, buddsoddiad mewn ysgolion newydd a rhaglen cynnal a chadw cyfalaf barhaus, sefydlu fforwm ysgolion ar newid hinsawdd a manylion nifer y staff arlwyo/glanhau a staff patrolio croesfannau ysgolion a gyflogir ar draws y ddinas.

Siaradodd y Cynghorydd Robert Smith ymhellach am yr adroddiad a ddosbarthwyd ac am sylwadau'r swyddogion, a dywedodd fod yr adroddiad yn crynhoi sefyllfa bresennol yr awdurdod yn dda o ran datblygu staff ac arweinyddiaeth.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau amrywiol i'r Swyddogion ac Aelod y Cabinet yn ymwneud â'r wybodaeth a amlinellwyd yn yr adroddiad ac yn ymwneud â materion ynghylch meysydd pwnc gan gynnwys cymorth gwell i lywodraethwyr, yr argyfwng ynni a goblygiadau i gyllidebau ysgolion, cadw staff a llenwi rolau arweinyddiaeth uwch, y potensial ar gyfer cael gwared ar fiwrocratiaeth ddiangen, cael adborth gan benaethiaid neu arolwg posib a/neu bresenoldeb a chasglu tystiolaeth mewn cyfarfodydd yn y dyfodol gan benaethiaid, rhannu arfer da cyfredol gan glystyrau ysgolion, defnyddio grwpiau a fforymau presennol ac sydd eisoes yn bodoli i geisio adborth gan uwch-staff.

Ymatebodd Aelod y Cabinet a Swyddogion yn briodol gan amlinellu y derbynnir adborth yn rheolaidd gan ysgolion ar feysydd fel ADY, CLGau a chytundebau TG. Byddai angen rhagor o waith a manylion ynghylch pa wybodaeth y byddai'r pwyllgor yn ei cheisio o unrhyw arolwg posib.

Dywedodd Aelod y Cabinet y byddai ef a Swyddogion yn adrodd eto ar lafar yn y cyfarfod nesaf ar y materion yn ymwneud â gwella arweinyddiaeth ysgolion.

**18 Cynllun Gwaith.**

Siaradodd y Cadeirydd ymhellach am y cynllun gwaith drafft a ddosbarthwyd.

Cynigiodd y diwygiadau canlynol i’r cynllun:

Hydref a Tachwedd - Cryfhau Arweinwyr Ysgolion.

Rhagfyr - Presenoldeb a Chynhwysiad.
cyfeirio adborth ar adroddiad blaenorol y PDP i'r Panel Craffu Perfformiad Addysg.

Ionawr - Presenoldeb a Chynhwysiad.

Chwefror a Mawrth - Llywodraethu ysgol cryfach a mwy effeithiol.

Cefnogodd aelodau'r Pwyllgor y cynllun gwaith diwygiedig a chytunwyd arno

Daeth y cyfarfod I ben am 4.53 pm

**Cadeirydd**